



I ddysgu



I ofalu



Y cyfle I lwyddo



CANOLFAN ADDYSG Y BONT

Ffordd Cildwrn

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7NG

Rhif Ffôn: 01248 750 151

Rhif Ffacs: 01248 724 056

E-bost: pennaeth.bont@ynysmon.gov.uk

Wefan: www.ysgolybont.org



PENNAETH: A.Huws B.A. Dip., Uwch. Add. Arb

Gwadiad

Er fod yr wybodaeth a gyflwynir yma yn gywir pan gyhoeddwyd y ddogfen ni ellir sicrhau na fydd rhai newidiadau wedi digwydd cyn neu yn ystod y flwyddyn addysgol.

Datganiad Cenhadaeth

I ddysgu, i ofalu, y cyfle i lwyddo

Pwrpas

Nod yr ysgol hon yw darparu'r addysg orau a mwyaf perthnasol i ymateb i anghenion unigol pob disgybl yn unol a'u hoedran, eu gallu, a'u diddordebau, mewn awyrgylch dwyieithog gan greu cymdeithas agored sy'n parchu safbwyntiau, dyheadau a gobeithion pawb sy'n rhan ohoni.

~~~~~

## CYFLWYNIAD CYFFREDINOL

Ysgol arbennig ddyddiol yw'r Bont sy'n rhoi darpariaeth gofal ac addysg ar gyfer bechgyn a merched o 3 hyd 19 oed sydd ag anghenion arbennig dwys. Mae gan ein disgyblion ystod eang o anghenion gan gynnwys awtistiaeth, problemau cyfathrebu a rhai sydd ag ymddygiad heriol. Mae'r ysgol wedi ei chyllido gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AAL) i dderbyn 85 o ddisgyblion ac o'r 84 sy'n gofrestredig ar hyn o bryd mae 22 yn ferched. Nôd yr ysgol yw galluogi'r disgyblion i gyrraedd eu llawn potensial drwy geisio lleihau yr agweddau negyddol o'u datblygiad mewn hinsawdd gynnes, ddiogel, sefydlog a deallus. Er mwyn cyflawni hyn darperir cwricwlwm sy'n strwythedig, eang, cytbwys a pherthnasol gan ddarparu profiadau a sgiliau i ddatblygu cymaint o hunan hyder ac sydd bosibl.

Defnyddir dulliau cyflwyno tawel, cyson a detholiadol er mwyn sicrhau bod anghenion unigol iawn ein disgyblion yn cael eu diwallu gyda sgiliau cyfathrebu yn rhan allweddol. Mae gennym ddisgwyliadau uchel a chredwn fod angen perthynas agored a didwyll gyda'r rhieni/uned deuluol ac arbenigwyr eraill er mwyn sicrhau hyn.

Cyfeirir disgyblion i'r ysgol gan yr AAL. Croesawir ymweliadau gan rhieni a disgyblion newydd cyn iddynt ddechrau, yn arferol bydd angen Datganiad o Anghenion Arbennig ar y plentyn er bod rhai disgyblion yn derbyn asesiad yn y Bont. Wrth reswm, mae gan yr ysgol trefniadau arbennig ar gyfer derbyn a galluogi mynediad i ddisgyblion sydd ag anableddau. Mae gan yr ysgol polisi mynediad sydd yn ymhelaethu ar y trefniadau perthnasol. Mae copi o'r polisi ar gael, drwy gais gan y pennaeth.

Trefnir yr ysgol mewn tri grŵp – Cynradd sydd â 4 dosbarth – Uwchradd CA3 a 14-19 oed a grŵp o ddisgyblion gyda Anghenion Dwys a Niferus. Mae rhwng 5 a 10 o ddisgyblion ym mhob grŵp gyda un athro/awes a dau gymhorthydd dysgu – weithiau bydd rhai disgyblion angen cefnogaeth ychwanegol un i un. Anelir i gyflwyno Cwricwlwm sy'n eang a chytbwys gan gwmpasu agweddau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei addasu ar gyfer anghenion unigolion.

Defnyddir INSTEP, ABLLS, Llwybrau Dysgu a Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i asesu'r disgyblion yn flynyddol a danfonir adroddiad adref yn amlinellu eu datblygiad. Defnyddir ystod o brofion eraill lle yn berthnasol ac yn adeiladol i wneud hynny.

Mae gan bob disgybl Gynllun Addysg Unigol (CAU) sy'n cofnodi targedau personol ac ar gael i'r holl staff. Wrth gofnodi datblygiad personol gellir sicrhau bod y llwyddiannau lleiaf yn cael eu cydnabod.

Gan fod staff yr ysgol wedi cael hyfforddiant ar Ddatblygu Agwedd Bositif tuag at ymddygiad anogir pawb i geisio osgoi disgyblaeth lefn nac unrhyw fath o ddisgyblaeth sy'n herio urddas yr unigolyn, i'r gwrthwyneb anelir i gynnal a chysuro'r disgyblion pan fyddant yn bryderus. Mae'n hanfodol ceisio deall sut y mae'r disgyblion yn amgyffred y byd o'u cwmpas wrth ddelio a disgyblion a allai fod yn heriol. Cofnodir pob digwyddiad gan gynnwys unrhyw ymyrraeth corfforol ac fe ddanfonir copïau i'r AAL.

Mae nyrs ar gael yn yr ysgol am 32½ awr pob wythnos ac fe arolygir y ddarpariaeth gan y paediatreg sirol. Derbynnir cefnogaeth dda gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Iechyd Lleol gyda therapyddion lleferydd a ffisiotherapydd yn ymweld yn wythnosol.

O'r 43 aelodau o staff parhaol mae 13 yn athrawon a 30 o staff ategol. Mae ymroddiad yr Uwch Dim Rheoli i ddatblygiad profesiynol yr holl staff i'w galluogi i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i'n disgyblion yn amlwg wrth i'r ysgol dderbyn gwobr Buddsodwr Mewn Pobl am y drydedd tro. Bydd pob aelod o staff a gyflogir yn derbyn archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) ac mae trefn Amddiffyn Plant cryf yn yr ysgol sy'n sicrhau bod yr holl staff yn addas i'w swyddi.

Y Pennaeth yw'r person dynodedig ar gyfer y drefn Amddiffyn Plant. Er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion mae ffens yn amgylchynu'r ysgol ac mae rhai drysau mewnol gyda dau glo tra bo'r prif ddrysau mynediad gyda chloeau/darpar diogelwch arbennig.

### **Y Defnydd o'r Gymraeg**

Nod polisi Iaith Y Bont yw sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol sydd a'r gallu i gyfathrebu'n ieithyddol feddu ar ddwyieithrwydd cytbwys gallu berthnasol, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Adlewyrchir polisi dwyieithog yr Awdurdod Addysg yng ngweinyddiaeth yr ysgol hon o ddydd i ddydd, ond y Gymraeg yw prif iaith y cyfathrebu.

Yn yr Adran Gynradd (3 i 11 oed) y nod yw, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth bwrpasol a sensitif, sicrhau sylfaen gadarn yn ei famiaith er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd maes o law.

Yn yr Adran Uwchradd (11 i 19 oed) y nod yw sicrhau ystyriaeth ganolog i'r disgybl, ac mai'r wedd bwysicaf yw'r cydbwysedd o ran dwyieithrwydd (ochr yn ochr â chydwyysedd cwricwlaidd) yn rhaglen astudio'r disgybl unigol.

### **Trosolwg o'r Cwricwlwm**

Mae'r ysgol yn anelu i wella cyraeddiadau yr holl ddisgyblion, rhoi profiad o'r brif-lif i rai a chaniatáu i eraill symud yn barhaol. Mae llwyddiant unigolion yn cael ei ddatlu ar draws yr ysgol ac fe ddefnyddir systemau gwobrwyo i gadarnhau ac ennyn

ymddygiad da a dysgu. Defnyddir ystod eang o achrediadau o fewn yr ysgol sy'n adlewyrchu ehangder y cwricwlwm a'r pwyslais a roddir ar wella cyraeddiadau.

Mae ystod eang o gyraeddiadau, gallu a lefelau datblygiad personol ac emosiynol yn yr ysgol ac fe geisir gwahaniaethu dulliau i ymateb i'r anghenion hyn. Mae athrawon Y Bont yn brofiadol a medrus wrth lunio tasgau ar gyfer unigolion. Addasir rhaglenni dysgu i gwrdd ac anghenion ein disgyblion. Mae'r dosbarthiadau yn fychan ac yn adlewyrchu anghenion pob grŵp o ddisgyblion.

Datblygu sgiliau cyfathrebu yw'r prif nŵd i gefnogi dysgu llwyddiannus er bod sgiliau Personol, Cymdeithasol, Iechyd a Dinasyddiaeth yn bwysig iawn. Rhennir gwybodaeth am gynlluniau Addysg Rhyw i'r rhieni pan fydd plentyn yn ymuno â'r ysgol.

Anogir y disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol, i fwynhau addysg er mwyn bod yn aelodau hyderus a medrus yn eu cymdeithas. Ein bwriad yw darparu profiadau sy'n berthnasol, cytbwys ac eang sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol i'w paratoi ar gyfer bywyd. Bydd y disgyblion hŷn yn derbyn cyngor Gyrfaol sydd yn cysylltu cyfleoedd ar leoliad yn y Coleg Technegol lleol a phrofiadau ym myd gwaith. Rhaid dangos perthynas rhwng yr hyn a ddysgir yn yr ysgol, a'u bywyd dyddiol ac i'r dyfodol.

Mae gan yr ysgol Bolisi Cyfle Cyfartal ac fe geisir sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i adlewyrchu drwy'r cwricwlwm.

### **Mynediad i'r Cwricwlwm ac Awtistiaeth**

'Rydym yn defnyddio amrediad o ddulliau dysgu arbenigol i geisio sicrhau bod disgyblion sy'n dioddef o Awstistiaeth yn cael mynediad i gwricwlwm eang, addas a hwyliog. Trefnir y dysgu yn unigol ar lefel 1:1 neu mewn grwpiau bychan yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn. Sylfaenir y dysgu ar addasu'r Cwricwlwm Cenedlaethol gyda phwyslais ar waith ymarferol, yn aml bydd angen gwrthrychau real i gyflwyno syniadau Ieithyddol a Rhif. Ein prif nod yw datblygu hunan hyder, annibyniaeth a'r gallu i gyfathrebu ac er mwyn cefnogi hyn defnyddir ystod o ddulliau i greu strwythder a chanllawiau i ddysgu, (megis TEACCH, PECS, ABA, ACTIVE SUPPORT).

PECS ('Picture Exchange Communication System') yw'r dull a ddefnyddir i ddysgu rhai disgyblion sut i gyfathrebu, ac fe fydd rhai athrawon yn defnyddio MAKATON i ddysgu disgyblion i arwyddo fel dull arall i'w cynorthwyo.

Weithiau bydd angen defnyddio technegau llawer mwy trylwyr i ysgogi'r disgyblion i gydweithio'n gymdeithasol megis gemau sy'n datblygu sgiliau cyswllt, cymeryd tro a dynwared. Mae llawer o'r disgyblion hyn angen atgyferthu sgiliau dysgu megis eistedd, edrych a gwranddo yn ogystal â datblygu hunan ymwybyddiaeth ac ymwybyddiaeth o eraill.

## **CWRICWLWM**

Mae cwricwlwm cyflawn yr ysgol yn cynnwys cwricwlwm ffurfiol a'r cwricwlwm ehangach sy'n darparu profiadau cyfoethogi o bob math.

Y brif egwyddor yw sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl i gyflawni ei botensial beth bynnag yw cefndir neu natur anghenion y dysgwr. I wireddu'r egwyddor hon gosodir disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion ac ar gyfer y cwricwlwm a ynnigir i bob un. Felly, rhoddir ystyriaeth ofalus cyn eithrio unrhyw ddisgybl o unrhyw agwedd o'r cwricwlwm statudol.

Wrth wireddu'r egwyddor o gyfle cyfartal rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl. Gwneir pob ymdrech i weithredu yn unol ag anghenion pob disgybl ar draws ystod oed a gallu. Mewn achosion lle mae yna anghenion dysgu ychwanegol mwy dwys, rhoddir ystyriaeth lawn o anghenion y disgybl i sicrhau cyfle cyfartal. Wrth ystyried eithrio disgybl o unrhyw ran o'r cwricwlwm, sicrhau bod safbwynt y plentyn a'r rhiant yn graidd wrth wneud penderfyniadau.

Egwyddorion eraill sy'n sail i adeiladwaith y cwricwlwm yw'r canlynol: ehangder, cydbwysedd, perthnasedd, gwahaniaethu, dilyniant a pharhad. Addasir y modd yr ymgorfforir y rhain ar draws yr ysgol yn unol â natur a gofynion pob cyfnod a gofynion gwahanol y dysgwyr wrth iddynt ddilyn eu gyrfa ysgol a'u paratoi ar gyfer gadael ar ôl 16 oed.

Gan fod yr ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion o 3 oed hyd 19 oed mae'n cwmpasu'r holl gyfnodau dysgu o'r cyfnod Sylfaen drwy gyfnodau 1,2,3 a 4 hyd ddisgyblion 16 i 19 oed. Datblygu'r gallu i gyfathrebu yw blaenoriaeth yr ysgol gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf addas ar gyfer dysgwyr gan gynnwys cyfarpar Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Wedi iddynt ddatblygu digon o hyder yn eu hiaith gyntaf sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ddatblygu dwyieithrwydd i'w galluogi i gymryd rhan yng nghymdeithas leol. Mae datblygiad sgiliau personol a chymdeithasol yn hanfodol ac mae ABaCh yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol. Cyflwyni'r gwersi Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol i bawb drwy'r ysgol.

Mae gan y disgyblion sy'n mynychu'r Bont ddatganiad o Anghenion Arbennig neu maen't wedi eu lleoli i gael asesiad trylwyr. Rhydd y datganiad arweiniad i'r ysgol wrth lunio Cynllun Addysg Unigol (C.A.U.) yn ystod y chwe wythnos yn dilyn cyflwyno'r datganiad a mynediad y disgybl i'r ysgol.

Mae'r **Uned Gofal Arbennig (Uned Dwynwen)** yn ymateb i anghenion disgyblion o 4 hyd 19 oed sy'n dioddef o broblemau meddygol dwys ac amrywiol a hefyd anghenion addysgol dwys a niferus. Prif amcan y cwricwlwm yw ceisio caniatáu i'r disgyblion hyn fwynhau cymaint o annibyniaeth ac sydd bosibl. Yn ychwanegol ceisir sicrhau eu bod yn mwynhau profiadau cyffroes i hybu canolbwyntio ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, sgiliau personol a chymdeithasol a fydd yn cryfhau eu hyder a chreu cyfleoedd i wella annibyniaeth.

Mae gan bob disgybl raglen unigol strwythedig i ateb eu hanghenion personol. Defnyddir Cynllun Llwybrau Trywydd Dysgu a PECS i wneud yr asesiad gwreiddiol fel y gellir creu targedau, cynlluniau gwaith a thaflen amser drwy gydweithrediad y rhieni.

Mae amrywiaeth gyfarpar arbenigol yn yr Uned gan gynnwys offer Technolegol, switshis arbennig, sgrîn cyffwrdd, offer cyfathrebu personol ac amrywiol offer arall. Mae gan yr Uned wlaŵ arbenigol, hoist ac offer codi a symud eraill, offer toiledau a bwydo sy'n sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion a'r staff sy'n eu galluogi i gynnal urddas y disgyblion. Ceir ystafelloedd i ddatblygu'r synhwyr, ystafell gweithgareddau corfforol, ystafell olau a thywyll ac ardal chwarae diogel.

Estynnir croeso i rieni a gwarchodwyr i ymweld â'r Uned gan fod eu cydweithrediad yn hanfodol i ddatblygiad eu plant.

Ceir **nyrs llawn amser** yn yr ysgol sy'n cydweithio'n agos gyda'r disgyblion, rhieni a staff i sicrhau dilyniant gofal meddygol. Mae'r Peditrydd Cymunedol yn cynnal clinigau rheolaidd yn yr ysgol sydd eto yn creu cyfleoedd i gysylltiau rhwng yr ysgol a'r rhieni.

Mae'r ffisiotherapydd a'r Therapydd Iaith a Llefarydd yn ymwelwyr cyson a'r Uned ac ar gael i drafod ac ymgynghori ynglŷn â datblygiad unigolion.

Mae'r staff yn cydweithio'n agos gyda'r holl asiantaethau allanol sydd yn ymweld ag unigolion ac mae'r agwedd aml ddisgybledd yma yn cryfhau cysylltiau a sicrhau dilyniant addysgol mewn dull cyfannol sydd yn cwrdd a'u holl anghenion.

Mae'r **Uned Gynradd** yn addysgu plant o 3 mlwydd hyd 11. (Noder: mae eithriadau ble addysgir plant y tu allan i'w Cyfnod Allweddol, gwneir hyn drwy gytundeb rhiant/gwarchodwr bob tro).

### Cyfnod Sylfaen

Mae meddylfryd y Cyfnod Sylfaen yn ffitio'n gysurus gyda'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n cyfuno addysg Blynnydoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol i greu cysondeb a pharhad yn addysg y disgybl. Bydd y disgyblion yn cael profiadau dysgu ymarferol, creadigol sy'n eu harwain i ddefnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Hanfod addysg arbennig yw llunio rhaglenni unigol i ymateb i anghenion ychwanegol y dysgwyr gan gyflwyno'r rhaglenni hynny drwy weithgareddau a ffocws priodol.

Mae amgylcheddau y tu mewn a'r tu allan sy'n hwyl, yn gyffrous, yn ysgogi ac yn ddiogel yn hyrwyddo datblygiad y dysgwyr datblygu chwylfrydedd naturiol i archwilio a dysgu drwy brofiadau bywyd go iawn.

Mae saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen:

- Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Dwyieithrwydd a Dealltwriaeth aml-ddiwylliannol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Yng Nghyfnod Allweddol 2 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol addasir y gweithgareddau i ymateb i anghenion a dealltwriaeth yr unigolyn. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu Fframwaith Sgiliau yn benodol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

- Datblygu Meddwl ar Draws y Cwricwlwm
- Datblygu Cyfathrebu ar Draws y Cwricwlwm
- Datblygu TGCh ar Draws y Cwricwlwm
- Datblygu Rhif ar Draws y Cwricwlwm

Cyflwynir y pynciau canlynol:

- Llythrennedd
- Cyfathrebu, Darllen, Ysgrifennu yng Nghymraeg a Saesneg
- Rhif
- Addysg Personol a Chymdeithasol
- Cerdd
- Addysg Gorfforol
- Technoleg (Bwyd a Dylunio)
- Celf
- Addysg Grefyddol

- Gwyddoniaeth
- Hanes
- Daearyddiaeth

Cyflwynir y rhan fwyaf o'r cwricwlwm drwy weithgareddau ymarferol sydd wedi ei gysylltu drwy thema.

Yn yr **Adran Uwchradd yng Nghyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7 i 9)** anogir y disgyblion i gryfhau a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddysgwyd eisoes a pharhau i ddatblygu sgiliau newydd yn benodol o fewn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Byddant yn parhau i ddilyn agweddau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei haddasu ar eu cyfer yn ogystal â dechrau cyflwyno sgiliau galwedigaethol, datblygu annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol. Treulir y rhan helaeth o'r amser yn y dosbarth gyda athro a staff ategol sy'n cyflwyno sgiliau a phrofiadau drwy thema gyntunedig. Serch hynny byddant yn derbyn gwersi gan arbenigwyr Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Technoleg, Gwyddoniaeth a Chelf.

Bydd disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 yn dilyn cwrs ASDAN Addysg Bersonol a Chymdeithasol Camau Allweddol. Ym Mlwyddyn 9 rhoddir mwy o bwysau ar ddatblygiad Sgiliau Allweddol ac fe ddilyniir cwrs ASDAN Her Drosiannol sydd yn cwmpasu 5 modiwl i wella'r sgiliau hyn sef:

- Hunan Adnabyddiaeth
- Datblygiad Personol
- Sgiliau Byw Annibynnol
- Hunan Reolaidd
- Hunan Ddelwedd Bositif

**Yng nghyfnod Allweddol 4/5 (Blynyddoedd 10 i 14)** ein nod yw ceisio darparu'r disgyblion i fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned ac i ddatblygu digon o hyder i'w galluogi i gyfleu eu teimladau a derbyn cyfrifoldeb am eu datblygiad i'r dyfodol. Bydd y cwrs wedi ei sylfaenu ar gwrs ASDAN Gwobr Ieuenctid Gradd Efydd ac Arian sydd yn adeiladau hunan hyder ac annibyniaeth drwy weithio yn y gymuned leol a byd gwaith. Byddant yn cael cyfleoedd i ddysgu trefnu eu gwaith a'u dysgu, gweithio gyda eraill, defnyddio offer cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a delio gyda phroblemau. Mae mynd allan i fyd gwaith yn rhan allweddol o'i datblygiad yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Llwybrau Dysgu 14-19 wedi galluogi'r ysgol i ddatblygu amrywiol gyfleoedd i'r dysgwyr i dderbyn profiadau a dysgu sgiliau newydd drwy:-

Cwrs Sgiliau Sylfaenol – Coleg Menai mewn partneriaeth ac ysgolion prif lif.

Amrywiol brofiadau ym myd gwaith ar y safle a thu allan.

Cyfle i ddatblygu Caffi i'w hyfforddi mewn sgiliau gwasanaethu a chyfathrebu a gwasanaethu'r cyhoedd.

Unedau Agored Cymru (2012)

Cyrsiau Lefel Mynediad (2013)

Gan fod y rhan fwyaf o'n disgyblion yn aros ymlaen yn yr ysgol nes eu bod yn 19 oed mae'r Rhaglen Gyrfaoedd wedi ei strwytho i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eu doniau a'r sgiliau hynny a ddatblygwyd ganddynt yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol. Mae'n hanfodol bod y rhaglen yn rhoi cyfle iddynt i ddatblygu eu medrau a'u cymeriadau a fydd yn eu galluogi i ddewis llwybr unai ym myd gwaith, addysg bellach neu weithle cysgadol.

Mae addysg yrfaol yn rhan bwysig o amserlen yr ysgol, gan ddechrau drwy addysg bersonol a chymdeithasol ac yna'n fwy ffurfiol ym mlynnyddoedd 10 a 12. Ceir asesiad o ddatblygiad yr unigolyn ar gyfer cyfarfod adolygu trosiannol yn 14+ oed pan fydd yr Adran Gyrfaoedd Cwmni Gyrfya yn dechrau dod i adnabod y disgyblion. Ymhellach drwy gydweithrediad y rhieni a'r holl asiantaethau eraill fe'u hanogir i ystyried eu hunain fel pobl aeddfed, gyda galluoedd, dyheadau, cymhellion a thueddfryd arbennig. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddilyn yr un profiadau a'u cyfoedion mewn ysgolion prif lif gan gynnwys profiad gwaith ond bod llawer mwy o gynhaliath a chymorth ar gael iddynt. Yn ystod blwyddyn 11 bydd cyfle pellach iddynt drafod a'r gwasanaeth gyrfaoedd a fydd ar gael i'w cynorthwyo.

Ym mlynnyddoedd 12 a 13 fe fydd cwrs llawer mwy ymarferol ar gael gan ganolbwyntio ar ddatblygu eu hunan hyder a'u hannibyniaeth drwy ddilyn cynllun Dug Caeredin yn ogystal â'r hyn a nodwyd eisoes. Yn 2013/14 trefnwyd cwrs ychwanegol ar y cyd â Choleg Menai yn cael ei gynnig ym mlynnyddoedd 13 a 14.

## Gadawyr

Gall plant adael yr ysgol pan fyddent wedi cyrraedd yr oed swyddogol sef 16 ar neu o flaen Awst 31 o'r flwyddyn honno. Yn arferol y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yw'r diwrnod gadael penodedig ond fe all disgyblion aros ymlaen hyd 19 oed os oes cwrs neu ddarpariaeth addas ar eu cyfer. Bydd yr athrawes gyrfaoedd a chynrychiolydd Cwmni Gyrfya yn cydweithio i drafod anghenion a chynghori unigolion yn ystod Blwyddyn 10.

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol cynhelir diwrnod gwobrwyo er mwyn cyflwyno tystysgrifiadau a chofnod cyrhaeddiad. Gwahoddir rhieni a ffrindiau'r ysgol i'r achlysur arbennig hwn sydd wedi profi'n un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ysgol. Cydnabyddi'r llwyddiannau eraill yng nghyfarfodydd gwasanaethau wythnosol yr ysgol ac ar ddiwedd bob tymor.

## Cynllun All Gymorth Y Bont

Mae'r ysgol yn darparu cymorth a chefnogaeth i ysgolion prif lif i gynnal disgyblion ac anghenion arbennig sydd yn cael eu hintegreiddio drwy bolisi cynhwysiad yr Awdurdod Addysg Leol ynghyd â chyflwyno asesiadau risg ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth i'w codi a'u symud.

### Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD)

Mae Cynhelydd Plant a Phobl ifanc yr ysgol yn gweithio'n agos ag unrhyw ddisgyblion/teuluoedd sydd yn derbyn cinio ysgol am ddim ag sydd angen mewnbwn a/neu chefnogaeth ychwanegol. (Mae Cynllun GAD Y Bont wedi'i gynnwys fel atodiad i'r llawlyfr hwn)

### CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL A CHYFLE CYFARTAL

Mae'r ysgol wedi llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae copi ar gael ar gais gan y Pennaeth. Adolygir y Cynllun yn flynyddol ac mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn copi o'r adroddiad.

Mae Ysgol y Bont yn gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal gan ddal y dylid galluogi pob plentyn, o ba ryw, hil, lliw, credo neu anabledd bynnag y byddo, i sylweddoli ei allu a'i botensial hyd yr eithaf.

Mae sicrhau cyfle cyfartal yn fater i'r ysgol gyfan ac yn ymwneud â'r cwricwlwm a'r cwricwlwm cudd.

Mae yn rhan annatod o ethos yr ysgol ac yn berthnasol i'r holl staff, y disgyblion a staff o asiantaethau eraill sydd yn cefnogi'r ddarpariaeth.

Yng ngolwg yr ysgol, mae cyfraniad rhieni/uned deuliol, yn rhoi lle canolog i anghenion y plentyn a datblygu dulliau addysgu i gyd yn agweddau pwysig at y broses o gyrraedd amcanion y polisi. Efen arall wrth anelu at gyrraedd y nod yw priodoldeb pob disgybl i dderbyn hawliau penodol.

- Yr hawl i beidio cael ei ddifrio ar sail ei iaith, ei amgylchiadau gartref, ei lliw, ei ryw a'r anabledd, fel y gellir hyrwyddo hunan barch yr holl ddisgyblion a'u hysgogi.
- Yr hawl i amgylchedd addysgu a dysgu lle nad oes anwybodaeth a rhagfarn; yr hawl i fod yn ddiogel rhag sarhad, camdriniaeth a gormes.
- Perchir traddodiadau ac etifeddiaeth y disgybl.
- Yr hawl i ymdeimlo a chyfiawnder cymdeithasol a pherthyn i gymuned, ymwybyddiaeth gyfrannol o hawliau a chyfrifoldebau yr unigolyn. Dealltwriaeth o gyd-ddibyniad y gymuned leol a'r byd mawr.

Mae gan bob athro ac athrawes gyfrifoldeb i annog y disgyblion i feithrin agweddau goddefgar a chadarnhaol tuag at eu cyd-ddisgyblion.

Disgwylir i'r athrawon sicrhau nad oes rhagfarnau ystadegol na diffyg ymwybyddiaeth mewn unrhyw werslyfr na defnyddiau cwricwlar eraill, ac addasu rhaglenni dysgu fel sy'n briodol.

Mae'r ysgol wrthi yn llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â deddfwriaeth diweddar.

### GWISG YSGOL

Y mae'r Llywodraethwyr o'r farn y dylai'r disgyblion wisgo gwisg yr ysgol er mwyn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn i'r ysgol. 'Rydym yn ymwybodol bod safonau gwisg pobl ifanc wedi newid, a bod gan rhai o'n disgyblion anghenion personol arbennig iawn ond dylid ceisio glynu'n fanwl wrth yr angen hwn os yw gwisg ysgol i olygu rhywbeth.

(Noder: heblaw am geiriad y logo ni fydd y gwisg ysgol wedi newid wrth symud i Canolfan Addysg y Bont)

#### Adran Cynradd:

Crys polo 'Nefi'  
Crys chwys 'Jade'  
Sgert neu drowsus llwyd, du neu nefi

#### Adran Uwchradd:

Crys polo 'Jade'  
Crys chwys 'Nefi'  
Sgert neu drowsus llwyd, du neu nefi

#### Dillad Addysg Gorfforol

Crys T neu gyffelyb                      Shorts                      'Trainers'                      Gwisg nofio

**Bydd yr ysgol ar agor yn unol a Chanllawiau Cenedlaethol a Chyfarwyddyd yr Adran Addysg Leol.**

**DYDDIADAU TYMHORAU 2014-2015** fel y ganlyn:

Tymor yr Hydref 2014: 1 Medi 2014 - 19 Rhagfyr 2014  
Tymor y Gwanwyn 2015: 5 Ionawr 2015 - 27 Mawrth 2015  
Tymor yr Haf 2015: 13 Ebrill 2015 - 20 Gorffennaf 2015

**Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Mawrth, 2ail o Fedi 2014**

**GWYLIAU 2013/2014** fel y ganlyn:



Hanner Tymor yr Hydref : 27 – 31 Hydref 2014  
Gwyliau'r Nadolig : 22 Rhagfyr 2014 – 2 Ionawr 2015  
Hanner Tymor y Gwanwyn : 16 – 20 Chwefror 2015  
Gwyliau'r Pasg : 30 Mawrth 2015 – 10 Ebrill 2015  
Calan Mai : 4 Mai 2015  
Hanner Tymor Sulgwyn : 25 – 29 Mai 2015  
Gwyliau'r Haf : 21 Gorffennaf – 31 Awst 2015

Bydd yr ysgol yn ail-agor dydd Mawrth, 1af o Fedi 2015 i athrawon, ac ar ddydd Mercher, 2ail o Fedi 2015 i ddisgyblion.

**1af o Fedi 2014 – Diwrnod H.M.S. dan Reolaeth Ysgol**

**4 Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd yn cynnwys:**

24 Hydref 2014  
5 Ionawr 2015  
13 Ebrill 2015  
1 arall – dyddiad heb ei drefnu

\*\*\*\*\*

**AMSERLEN YSGOL**

|                    |   |                              |
|--------------------|---|------------------------------|
| 8.50 – 9.00 y.b.   | - | Derbyn Disgyblion            |
| 9.00 – 9.15 y.b.   | - | Cofrestru, Gwasanaethau      |
| 9.15 – 10.15 y.b.  | - | Gwersi                       |
| 10.15 – 10.45 y.b. | - | Sgiliau Cymdeithasol         |
| 10.45 – 12.00 y.b. | - | Gwersi                       |
| 12.00 – 1.00 y.p.  | - | Amser Cinio                  |
| 1.00 – 2.00 y.p.   | - | Cofrestru / Gwersi           |
| 2.00 – 2.15 y.p.   | - | Egwyl (Cynradd yn unig)      |
| 2.15 – 3.00 y.p.   | - | Gwersi                       |
| 3.00 – 3.10 y.p.   | - | Dyddiaduron/Paratoi am adref |
| 3.15 y.p.          | - | Disgyblion yn mynd adref     |

**Nid oes goruchwyliaeth i ddisgyblion cyn 8:50 yb**



\*\*\*\*\*

## CYNLLUN STAFFIO 2015/2016

Pennaeth : Mr Andreas Huws B.Add. Dip Add.Arb  
Pennaeth Cynorthwyol (Uwchradd): Mrs Dawn Hoban B. Add (UDRH)  
Arweinydd Cyfnod Sylfaen/Meithrin: Mrs Ceri Wyn Thomas (UDRH)  
Arweinydd Cyfnod Allweddol 2 & Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Eilw Emllyn Roberts (UDRH)  
Swyddog Cefnogi Ysgol (Gweinyddu a Threfniadaeth) : Mrs Meinir Williams, Llinos Williams

### Athrawon Dosbarth Cynradd

|                                 |                                               |
|---------------------------------|-----------------------------------------------|
| Cynradd 1: (Cyfnod Sylfaen)     | Ceri Wyn Thomas B.Add                         |
| Cynradd 2: (Cyfnod Sylfaen)     | Michelle Davies B.A.                          |
| Cynradd 3: (Cyfnod Sylfaen)     | Lisa Roberts B.Add                            |
| Cynradd 4: (Cyfnod Allweddol 2) | Siân Parry B.Sc (Angharad Morris – mamolaeth) |
| Cynradd 5: (Cyfnod Allweddol 2) | Eilw Emllyn Roberts B.Add                     |
| Arweinydd Gofal Arbennig:       | Lowri Morris B.Add                            |

### Athrawon Dosbarth Uwchradd

|                             |                     |
|-----------------------------|---------------------|
| Cyfnod Allweddol 3 (Canol): | Sioned Parry B.Add. |
| Ceint 1 (CA3/CA4):          | Aled Williams B.Add |
| Ceint 2 (14-19):            | Siân Jones B.Sc     |
| Ceint 3 (14-19):            | Dawn Hoban B.Add    |

### Athrawon Arbenigol

|                              |                                                                  |
|------------------------------|------------------------------------------------------------------|
| Cerdd/Iaith Fodern           | Gethin Thomas B.Add                                              |
| Addysg Gorfforol, Celf & CDT | Dawn Hoban B.Add., Lowri Fretwell B.Add<br>Lowri Fretwell B.Add. |

### Staff Cefnogol

Sam Clutton CDLU  
Holly Cunningham  
Rachel Fergusson  
Ann Jones  
Anwen Jones (CDLU)  
Elen Mai Jones  
Nerys Jones (CDLU)  
Tabitha Mead  
Islwyn Owen  
Sian Owen  
Nicola Pritchard (Mamolaeth/Maternity)  
Gareth Roberts  
Llinos Roberts (CDLU)  
Mary Roberts  
Peter Rowlands  
Cathrin Williams  
Dawn Williams  
Heather Williams  
Anna Hughes  
Angharad Thomas  
Sharon Hughes  
Ellen Williams  
Laura Roberts  
Hilda Owen  
Dion Williams  
Naomi Jones  
Elin Morris Jones  
Stella Jones

Rob Humphreys  
Catrin Williams  
Gemma Hughes  
David Cashman  
Kelly Davies  
Craig Huges

## **Eraill**

**Crochenydd:** Jonathan Fairbarn (0.2)  
**Cynhelydd Plant:** Mandy Hughes B.Sc  
**Nyrs:** Angela Cronin  
**Staff Gofan Iechyd :** Claire Henson, Hannah Wain, Hayley Morey, Sue Jones, Gwynedd Hulme  
**Tîm Rheoli Ysgol:** A Huws, D Hoban, Siân Parry, E E Roberts, Lowri Morris, Mandy Hughes, Meinir Williams, Nerys Jones, Samantha Clutton, Sioned Parry, Ceri Thomas, Anwen Jones, Llinos Roberts

**Uwch Tîm Rheoli:** Andreas Huws, Dawn Hoban, Elliw Emlyn Roberts, Ceri Wyn Thomas

**Cyfrifoldeb dros LAC:** Andreas Huws, Dawn Hoban

**Personau cyfrifol  
Amddiffyn Plant:** Andreas Huws, Dawn Hoban, Eileen Clarke (**Llywodraethwyr**)

**Gofalwr:** John Lewis Jones  
**Gwasanaethau Masnachol:** Carys Grieves, Sylvia Jones, Nia Hughes, Lilian Jones, Donna Owen, Martin Roberts, Mary Owen, Mai Hughes

**Prif Gogydd:** Belinda Jones  
**Staff Cegin:** Helen Owen  
Helen Evans



**ADRAN ADDYSG**

**Seicolegydd Addysgol:** Mr Gareth Payne, Mrs Elenid Glyn  
**Swyddog Lles:** Angela Bennette  
**Swyddog Addysg** Mr Gareth Jones  
**Anghenion Addysg Arbennig:** Dr Einir Thomas



## **ADRAN IECHYD**

### **Ffisiotherapi**

Darperir gwasanaeth Ffisiotherapi yn yr ysgol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cymorth.

**Swyddogion Ffisiotherapi:** Ms Hilary Wilson  
Mr Mitesh Makanjee



**Therapydd Llefarydd**

Darperir gwasanaeth therapi Llefarydd gan Awdurdod Iechyd Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer gwneud asesiadau, cynllunio rhaglenni fel y gellir yr athrawon eu cyflwyno o ddydd i ddydd.

Yn aml bydd gwaith y therapydd yn golygu asesiadau ar gyfer cymorth cyfathrebu trydanol a chyfrifiadurol.

**Therapydd Llefarydd ac Iaith:** Carol Davies-Owen  
**Nyrs ysgol:** Angela Cronin

### **Cymunedau Dysgu a Rhwydweithiau Proffesiynol**

Mae'r ysgol yn cyd-weithio ag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid er mwyn datblygu a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol.

**LLYWODRAETHWYR**  
Aelodau'r Corff Llywodraethol 2014/2015

**Yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol:**

Dr Dyfrig ap Dafydd  
Cyng. Dylan Rees  
Mr Lloyd Williams

**Yn cynrychioli'r Rhieni:**

Mrs Iris Williams  
Mr Adrian Williams  
Mr Sean Snape (Cadeirydd)  
Mrs Donna Calveley

**Aelodau Cyfetholedig:**

Mrs Eileen Clarke

**Yn cynrychioli'r Mudiadau Gwirfoddol :**

Mr Gwilym Pritchard (Is-Cadeirydd)

**Pennaeth:**

Andreas Huws

**Yn cynrychioli'r Athrawon:**

Dawn Hoban

**Yn cynrychioli'r Staff Ategol:**

Cathrin Williams

**Clerc y Corff Llywodraethol:**

Mrs Meinir Williams



**GWOBRAU A CHYMERADWYAETH GENEDLAETHOL**

Mae'r ysgol wedi derbyn cymeradwyaeth gan nifer o asiantaethau am ei gwaith da. Mae'n ganolfan achrededig y Cyd Bwyllgor Addysg Gymru i'w chaniatáu i gynnal arholiadau Lefel Mynediad ac i gyflwyno'r Cofnod Cyrrhaeddiad Cenedlaethol. Mae'n ganolfan Asesu Achrededig ar gyfer Cynllun Ieuencid A.S.D.A.N. a hefyd Gwobr Dug Caeredin. Mae'r ysgol bellach (2013) wedi'i dynodi yn ganolfan achrededig Agored Cymru.

Mae'r ysgol yn aelod llawn o'r Gymdeithas Genedlaethol Awstistig ac mae y mwyafrif o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ganddynt.

Yn ystod 2009 enillodd yr ysgol Wobr Buddsoddwr Mewn Pobl am y trydydd tro a fe ddangoswyd ei bod yn parhau i ymgyrraedd at y nod o sicrhau ei bod yn ymrwmo i ddatblygiad proffesiynol yr holl staff. Yn 2014 derbyniodd yr ysgol Wobr Cydnabod Ansawdd Gyrfa Cymru ac fe enillwyd gwobr newydd Nôd Ansawdd Sgiliau Sylfaenol yn 2009. Yn 2012 fe gafodd yr Ysgol y wobwr Efydd Buddsoddwyr Mewn Pobl am y tro cyntaf.

**GWOBRAU A CHYMERADWYAETH ERAILL**

- Marc Gyrfa Cymru: Gwella Ansawdd yn barhaus (2014)
- Ysgol Iach: Cam 5(2013)
- Tystysgrif Continyou Cymru: Safonau Rhyngwladol i Ysgolion Bro
- Masnach Deg : (2014)

Mae gan yr ysgol gyswllt gryf gyda'r Rhaglen Ewropeaidd 'Comenius' ynghyd â'r 25 gwledydd cysylltiedig.

**Buddsoddwyr Mewn Pobl (Nod Ansawdd: Efydd 2012)**

Yn 2011 ac eto yn 2013 mae'r ysgol wedi derbyn cymeradwyaeth gau y Cyngor Brydeinig am ei gwaith byd eang mewn addysg.

Like Free Stuff?  
Go to  
**XWINNER.COM**  
Win Prizes, Giveaways  
Sweepstakes & More!

## DATBLYGU CYNALIADWY A DINASYDDIAETH FYD-EANG

Mae datblygu arferion da tuag at ail gylchu, arbed ynni a diogelu yr amgylchfyd yn rhan allweddol o addysg yr ysgol o ddydd i ddydd. Ceisir anogi'r disgyblion i barchu gwahaniaethau ethnig a bod yn ymwybodol o wahanol traddodiadau, ieithoedd ac ymarferion byd-eang. Eisoes derbyniwyd tystysgrif Ysgol Iach (Cam 5 yn 2013), Ysgol Eco (2013), Tystysgrif Arian Ysgol Werdd ac mae'r ysgol yn flaenllaw yng ngweithgareddau prosiectau Ewropeaidd Comenius 1 a Comenius 3.

Derbyniodd yr ysgol Tystysgrif Cyfrawnogiad CONTINYOU Cymru yn dilyn treialu y Safonau Rhyngwladol i Ysgolion Bro.

### ADRODD I RIENI

Cyflwynir dwy adroddiad i'r rhieni yn flynyddol. Cynhelir adolygiad blynyddol ar bob plentyn ar wahanol adegau o'r flwyddyn er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r rheini o'r holl asiantaethau. Bydd adolygiadau blynyddoedd 6 a B1.9 – 14, yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr Hydref a'r gweddill mewn bloc yn ysgol Mai/Mehefin.

Ar ddiwedd tymor yr Haf cyflwynir adroddiad addysgol sy'n amlinellu'r cynydd a wnaed yn ystod y flwyddyn. Gwahoddir rheini i ymweld â'r ysgol i drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawon ar adegau penodol bob tymor ond mae gan yr ysgol bolisi drws agored sy'n croesawu'r rheini ar unrhyw adeg cyn belled â'u bod yn cysylltu â'r Pennaeth ymlaen llaw.

### ETHOS A GWERTHOEDD

#### Gofal Bugeiliol

Y mae'r drefn fugeiliol yn seiliedig ar arweiniad athrawon dosbarth, hwy sy'n uniongyrchol gyfrifol am ofalu am les bersonol pob aelod o'r dosbarth ac am arolygu ei ymddygiad a'i gynydd academiaidd. Gellir derbyn arweiniad, neu gyfeirio problemau anodd neu ddifrifol i sylw'r UDRH neu'r Pennaeth.

Bydd y Swyddog Lles Addysg yn ymweld â'r Bont yn gyson. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithredu'n agos a nifer o asiantau allanol megis Seicolegwyr Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Uned Datblygu Plant a'r Adran Iechyd.

#### Disgyblaeth

Mae'r drefn ddisgyblaeth yn seiliedig ar bolisi lle bo pob athro yn gyfrifol am ymddygiad ei ddosbarth ei hun a hefyd disgyblion eraill wrth fynd o amgylch yr ysgol, gellir cyfeirio plant i sylw'r UDRH ac yna'r Pennaeth. Gweithredir trefn o gosbi disgyblion ac fe allai hyn olygu eu cadw i mewn yn ystod amser egwyl dan oruchwyliaeth.

Mae gan y Pennaeth hawl i atal disgyblion rhag mynychu'r ysgol am resymau a ystyrir yn ddifrifol am gyfnod hyd at 45 diwrnod ysgol. Bydd gan rieni hawl i apelio yn erbyn ataliad i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

#### Ymddygiad yn Y Bont

Ceisir annog pob disgybl i ymddwyn yn bositif mewn dull cyfrifol gan ddangos parch a goddefgarwch tuag at eraill. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o dair oed hyd bedair ar bymtheg gyda ystod eang iawn o anghenion arbennig a cheisir annog y disgyblion i fod yn ymwybodol o anghenion a phroblemau eu cyfoedion a meithrin cydymdeimlad a'r anghenion hynny. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd gofyn iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol a mawr obeithir y bydd eu profiadau cynnar yn sail gadarn i'w datblygiad pellach.

Mae pob athro yn derbyn gofal o ddosbarth cofrestru a phob amser yn barod i wrando, trafod a rhoi cyngor neu gymorth i ddatrys problemau.

Dylid cofio wrth symud o amgylch yr ysgol neu yn yr ystafell ddosbarth bod ymddygiad yr unigryw yn medru tarddu ar fywyd a gwaith plant eraill.

Felly, cofir:

- Symud yn dawel o ddosbarth i ddosbarth
- Cyrraedd mewn pryd a bod yn barod i weithio
- Peidio â gwisgo cotiau na chnoi
- Ymddwyn gyda pharch yn y dosbarth
- Peidio â rhedeg a gweiddi ar y coridorau
- Helpu eraill drwy ddal drysau
- Ceisiwch gadw i'r chwith
- Rhoi sbwriel yn y bin
- Parchu gwaith sy'n cael ei arddangos

### **Rheolau'r Bont**

Mae rheolau'r ysgol yn adlewyrchu'r agweddau hynny y byddwn yn disgwyl i'r disgyblion eu dysgu a'u hymarfer wedi iddynt adael yr ysgol. Gweler polisïau:

- Datganiad Gofal
- Gwisg ysgol
- Ystafell Fwyta
- Symud o amgylch y Ganolfan
- Gadael Tiriogaeth y Ganolfan

### **Bwlio**

Nid yw'r ysgol yn ddioddef bwlio o unrhyw fath, boed yn:

- Gorfforol
- Geiriol
- Neu unrhyw ffurf arall

Os derbynnir cwyn ynglŷn â bwlio yna bydd yr ysgol yn:

- Holi'r plentyn a ddioddefodd ac unrhyw dystion
- Holi'r sawl a gyhuddir o fwlio
- Os bydd y cyhuddiad yn cael ei brofi yna fe drafodir yr ymddygiad gyda'r unigolyn i roi cyfle iddi/iddo i ddeall pam nad yw'r ymddygiad yn dderbyniol.
- Anogir y bwli i gynorthwyo a bod yn fwy cyfeillgar tuag at blant eraill sy'n wannach.
- Os bydd unrhyw ymgais gan y bwli i dalu'n ôl i'r sawl a gwynodd yna fe gymerir camau pellach yn ei erbyn.
- Os bydd yr ymddygiad yn parhau yna fe gysylltir gyda'r rhieni a gwneir ymweliad a'r cartref i drafod y broblem.

Mae'n bwysig bod disgyblion sy'n cael eu bwlio yn dweud yn syth am y digwyddiad.

- Dweud wrth athro dosbarth
- Dweud wrth ffrind
- Dweud wrth eu rhieni

***MAE'N IAWN DWEUD!***  
***MAE'N BWYSIG DWEUD!***

## **POLISI ADDYSG RHYW A PHERTHYNAS PERSONOL**

### **Pwrpas:**

Mae addysg rhyw a pherthynas personol effeithiol yn hanfodol i bobl ifanc wneud penderfyniadau cyfrifol yn eu bywydau sydd yn deillio o wybodaeth ddibynadwy.

Mae'r Fframwaith ABaCh a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ganolog i bolisi'r ysgol i godi safonau a disgwyliadau ar gyfer y disgyblion i gyd ac i roi cyfleoedd eglur i ddisgyblion ddysgu am addysg rhyw a pherthynas personol.

Bwriad addysg rhyw a pherthynas personol yw i helpu a chefnogi pobl ifanc trwy eu datblygiad corfforol, emosiynol, moesol ac ysbrydol. Mae ein rhaglen yn helpu pobl ifanc i barchu ei hunain, i barchu eraill ac i symud yn hyderus o blentynod i fywyd fel oedolion.

Mae addysg rhyw a pherthynas personol yn dysgu gydol oes am ddatblygiad corfforol, moesol ac emosiynol. Mae'n ymwneud â deall pwysigrwydd priodas ar gyfer bywyd teuluol sefydlog, perthynas sefydlog a chariadus gyda grwpiau o ffrindiau a'r gymuned ehangach. Mae hefyd yn ymwneud â dysgu am ryw, rhywioldeb ac iechyd rhywiol. Nid ydyw yn ymwneud â hyrwyddo tueddfryd rhywiol na gweithgaredd rhywiol.

### **Arweiniad cyffredinol:**

#### **Perthynas personol**

Yn ystod y cyfnod sylfaen bydd y plant yn cael cyfle i ddysgu a datblygu perthynas drwy gyd chwarae. Datblygir ymwybyddiaeth synhwyrol yn ogystal â hunan ymwybyddiaeth ac ymddygiad derbynol. Bydd datblygiad eu perthynas gyda disgyblion eraill a'r oedolion sydd o'u cwmpas yn bwysig iawn. Erbyn Cyfnod Allweddol 2 bydd eu perthynas â'u ffrindiau â'u teulu yn hybu datblygiad eu teimladau personol tuag at eraill. Dysgir iddynt ymddwyn yn briodol mewn gwahanol sefyllfaoedd, peryglon glendid a phreifatrwydd. Dysgu dweud 'Na' a dechrau datblygu ymwybyddiaeth am newidiadau yn eu corff a blaen lencyndod. Drwy astudio cylch bywyd a dulliau ail gynhedlu anifeiliaid fe fyddant yn datblygu ymwybyddiaeth o'r drefn ail gynhedlu dynol.

Mae rhaglen addysg rhyw ar draws Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 yn helpu pobl ifanc i barchu eu hunain a pharchu eu gilydd, deall gwahaniaethau a delio gyda pherthynas personol sy'n newid. Bydd yn eu galluogi i fagu hyder a hunan werth a deall y rheswm dros oedi cyn gweithredu'n rhywiol. Bydd disgyblion hefyd yn caffael fwy o hunan reolaeth trwy ddeall a rheoli emosiynau. O fewn y cyd-destun hwn fe addysgir disgyblion am natur priodas a'i bwysigrwydd ar gyfer bywyd teuluol a magu plant.

#### **Bod yn rhieni**

Er mwyn sicrhau datblygiad iach yng nghymunedau'r dyfodol, bydd yr ysgol yn datblygu cyfrifoldebau a bod yn rhieni.

#### **Cyfranogiad a chynhwysiad**

Mae angen i'r disgyblion o'r ddau ryw deimlo bod addysg rhyw yn berthnasol iddynt ac na ddylid bod ag embaras i holi am ryw. Dylai athrawon sicrhau fod gwersi yn rhoi'r un pwyslais ar fechgyn a marchod, plant o wahanol ddiwyllianau a chrefyddau: Rhaid cysylltu gyda rhieni am addasrwydd defnyddiau a chynnwys yr hyn fydd yn cael ei ddysgu. Mae llythyr yn cael ei anfon i'r rhieni i roi gwybod iddynt am hyn ac yn rhoi'r cyfle iddynt dynnu eu plant allan o rai gwersi os dymunant.

#### **Anghenion Addysgol Arbennig a Phroblemau Dysgu**

Bwriad yr ysgol yw cynnwys pob disgybl gydag anghenion addysg arbennig ac anghenion dysgu yn y rhaglen addysg ryw. Rhoddir cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ac felly lleihau'r risg o gael eu cam drin a'u hecsbloetio. Bydd angen i athrawon a'r Nyrs Ysgol gynllunio yn wahanol i'r holl pan fo angen er mwyn cwrdd ag anghenion unigol disgyblion.

Beth bynnag eu datblygiad rhywiol, dylai pobl ifanc deimlo bod y rhaglen yn berthnasol i'w hanghenion. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd trafod gyda rhieni neu ofalwyr. Ni ddylid hyrwyddo unrhyw dueddiad rhywiol yn uniongyrchol, ond dylai athrawon drafod materion mewn ffordd sensitif, agored, heb ddangos unrhyw dueddiad. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth o eraill a pharch tuag atynt, beth bynnag eu tueddiad.

## **Plant Mewn Gofal (yr Awdurdod Lleol)**

Mae'r ysgol yn gweithredu ar bolisi clir i sicrhau fod y disgyblion sydd mewn gofal yn derbyn y gefnogaeth briodol a bod dim effaith negyddol ar eu cyflawniad. Dadansoddir data er mwyn sicrhau hyn. Mae'r polisi llawn ar gael, drwy gais, gan y Pennaeth.

### **ADDYSG GREFYDDOL**

Gweithgaredd addysgol yw Addysg Grefyddol er mwyn ehangu gorwelion ac addysgu disgyblion am wahanol grefyddau a rhoi cyfle iddynt i archwilio a gwneud penderfyniadau, nid rhaglen i hyrwyddo unrhyw gred arbennig. Mae Addysg Grefyddol yn gaffaeliad mawr i ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu credoau a gwerthoedd. Mae'n cael ei gyflwyno drwy amrywiol dulliau ymarferol fel storïau, trafodaethau, drama, fideo ac ymweliadau a gwahanol addoldai.

Cynhelir gwasanaethau ysgol gyfan ar fore Llun, Mercher, Iau a Gwener a chyfarfodydd dosbarth ar ddydd Mawrth a Gwener.

Rhoddir y pwyslais mwyaf ar y Gred Gristnogol, fodd bynnag trafodir ac astudir crefyddau eraill ein byd. Nid oes gan yr Ysgol unrhyw ymglyniad â chrefydd neu enwad crefyddol neilltuol.

Mae hawl gan riant i wneud cais i gael ymwrthod eu plant o wasanaethau ar sail grefyddol ac fe geisir gwneud trefniadau eraill ar eu cyfer. Mi fydd rhieni yn derbyn unrhyw wybodaeth gyfredol ynghylch natur yr addoli ar y cyd os wneir newidiadau.

### **CHWARAEON**

Mae rhaglen chwaraeon yr ysgol yn aml bwrpas gan fod angen adlewyrchu anghenion y disgyblion a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar draws y cyfnodau. Mae'n angenrheidiol bod addysg gorfforol yn arwain at ddatblygu ac ymateb i anghenion corfforol/addysgiadol y disgyblion tra hefyd yn rhoi cyfle iddynt gystadlu, bod yn rhan o dîm a mwynhau cyfleoedd i gymdeithasu.

Y nod chwaraeon yw:

- Dysgu sut i gydweithio ag eraill, mewn parau, grwpiau a thimau
- Dysgu agweddau iach o gystadlu gonest
- Datblygu amrediad o sgiliau corfforol
- Datblygu hunan hyder drwy adnabod eu hamrediad corfforol a'u cyraeddiadau eu hunain.
- Datblygu gwerthfawrogiad o symudiad esthetig mewn chwaraeon a dawns.
- Ceisio datblygu diddordeb y disgyblion mewn chwaraeon fel y gallant ei fwynhau ac ymddiddori mewn gwahanol agweddau gydol eu hoes, gan ddefnyddio Canolfannau Chwaraeon a datblygu agweddau iach wrth gefnogi timau lleol a chenedlaethol.

Bydd yr agweddau uchod yn cael eu cyflawni drwy sicrhau bod yr ysgol yn manteisio ar bob cyfle i gyflwyno amrediad o sgiliau a chyfleoedd cystadlaethol sy'n addas ar gyfer anghenion unigol bob disgybl.

### **Marchogaeth**

Bydd grwpiau penodol yn cael cyfle wythnosol i ymuno â grŵp 'Reidio i'r Anabl' yn stablau ger y Fenai. Trefnir y grŵp gan Mrs E Clarke sydd yn aelod o'r Llywodraethwyr ac fe'i cefnogir gan aelodau lleol a staff yr ysgol.

### **Profiadau Allanol**

Mae'r ysgol yn credu bod angen manteisio ar yr adnoddau lleol i ddysgu'r plant i werthfawrogi a mwynhau eu hamgylchfyd. Manteisir ar gyfleoedd i gerdded llwybrau natur Môn, ymweld â manau hanesyddol a chael profiadau preswyl.

Bydd y disgyblion hyn yn cael cyfle i ddilyn cynllun Gwobr Dug Caeredin.

Mae gan yr Ysgol berthynas pwrpasol â byd busnes a sefydliadau allanol eraill. Yn aml mae'r bartneriaeth yma yn gysylltiedig â phrofiad gwaith, ymweliadau gyrfaoel a mentrau codi pres i'r ysgol.



## BWS MINI

Trwy gynnig profiadau eang ac arbenigol i'n plant mae'n angenrheidiol ein bod yn cyrchu mynediad i weithgareddau allgyrsiol sy'n ddibynnol ar ddefnyddio ffurf ychwanegol o drafnidiaeth.

Mae gan yr ysgol 3 bws mini gyda'g un wedi ei haddasu yn bwrpasol i gludo plant sy'n defnyddio cadair olwyn.

Yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Addysg mae'r ysgol yn gyfrifol am yswiriant a chynnal a chadw y bysiau yn ogystal â hyfforddi aelodau staff sy'n gyrru y bws.

Mae datganiad polisi a chod ymarfer llawn ar gael gan y Pennaeth.

## IECHYD A DIOGELWCH

Polisi'r ysgol yw sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a llês (yn y gwaith) ei gyflogedigion, myfyrwyr, ymwelwyr ac eraill y gall gweithgareddau'r ysgol effeithio arnynt.

Er mwyn gweithredu ei bolisi, bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r holl ofynion statudol a chodau ymarfer perthnasol.

Mae prif fynedfeydd yr ysgol wedi eu diogelu gyda drysau magnetig fel na all disgybl adael yr adeilad heb ganiatâd, ac i rwystro dieithriad ac ymwelwyr i'r ysgol gael mynediad heb ganiatâd. Lleoli'r camerâu diogelwch o amgylch yr ysgol i gynorthwyo gyda diogelwch cyffredinol yn ystod yr adegau y mae'r ysgol yn wag ond hefyd gellir eu defnyddio'n ddyddiol i gadw golwg ar ddiogelwch safle'r ysgol.

Amgylchynir yr ysgol gan ffens i ddiogelu'r plant yn ystod amser chwarae ac mae goruchwyliaeth fanwl yn ystod y cyfnodau hyn.

Mae rampiau ar gael wrth holl fynedfeydd y Ganolfan, ac mae'r dylunio yn sicrhau bod disgyblion anabl yn medru manteisio o'r un ddarpariaeth a'u cyfoedion.

Gan fod y mwyafrif o'r disgyblion yn cael ei gyrchu i'r ysgol gan gludiant a drefnwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol mae trefniadau manwl i sicrhau diogelwch plant wrth eu derbyn a phan fyddent yn gadael ar derfyn dydd.

Gellir gweld copi llawn o'r polisi Iechyd a Diogelwch gan y Pennaeth.

## GWEITHDREFNAU AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr Ysgol bolisi clir ar Amddiffyn Plant, a gweithredir a'r Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008). Adolygir y polisi yn flynyddol a darperir adroddiad blynyddol gan y Pennaeth i'r Corff Llywodraethol â'r Awdurdod Addysg ar faterion Amddiffyn Plant.

## DARPARIAETH MEDDYGOL

Rhoddir arweiniad a chefnogaeth feddygol i'r ysgol gan Awdurdod Iechyd Gogledd Orllewin Cymru.

Mewn achos o ddamwain bydd cymorth cyntaf ar gael yn yr ysgol. Mae 2 aelod o staff wedi eu cymhwyso fel Cymorthyddion Cyntaf yn y gweithle ac mae staff ar gael mewn pob adran o'r ysgol wedi eu cymhwyso mewn Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng.

Mae'n bwysig bod yr ysgol yn ymwybodol o unrhyw alergeddau neu unrhyw hanes meddygol arall sy'n ymwneud â'r plentyn. Os yw eich plentyn yn sâl byddem yn eich cysylltu ar y ffon. Rydym felly yn gofyn i chwi sicrhau bod gennym rhif ffôn ar gael lle gellir cysylltu â chwi mewn argyfwng.

Os oes achlysur yn ystod y dydd pan mae angen meddyginiaeth ar eich plentyn, gellir gwneud trefniadau unigol gyda'r Pennaeth. Bydd angen marcio enw'r plentyn yn glir ar unrhyw feddyginiaeth sydd yn dod i mewn i'r ysgol a'i adael gyda'r ysgrifenyddes.

Os yw eich plentyn yn absennol, byddwch mor garedig ag anfon nodyn o esboniad i'r athro dosbarth, neu ffonio'r swyddfa. Mae polisïau ymhellach ynglŷn â meddyginiaeth pwyntiau cymorth cyntaf, adrodd ar ddamweiniau ac achosion peryglus ar gael gan y Pennaeth.





## **CYFLEUSTERAU TOILED**

Mae 10 ystafell toiled yn yr ysgol i ddisgyblion (5 i ferched a 5 i fechgyn). Mae toiledau sydd yn addas i ddefnyddiwyd cadair olwyn ymhob ardal o'r ysgol. Yn ystod y tymor ysgol mae'r toiledau yma yn cael eu glanhau a'i cynnal yn ddyddiol gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant.

## **CODI A SYMUD**

Er diogelwch holl staff yr ysgol ac er lles ein disgyblion mae'r ysgol yn gweithredu polisi o godi a symud diogel. Dan amodau a rheolau y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Safle Gwaith rydym yn sicrhau y canlynol:

- Asesiad risg llawn ar unigolion sydd angen cymorth i symud
- Sicrhau bod offer a systemau gwaith mewn lle, sydd yn ddiogel a heb risg i iechyd
- Sicrhau bod hyfforddiant a rheolaeth sy'n ddigonol i sicrhau iechyd a diogelwch
- Sicrhau awyrgylich sydd yn ddiogel a heb risg i iechyd

Aseswr risg yr Adran Addysg Leol yw'r CBAAA sydd yn cynnal asesiad manwl ac yn rhoi cyfarwyddyd ar y ddarpariaeth angenrheidiol i bob unigolyn.

Mae polisi cyflawn, asesiadau risg a chynlluniau hyfforddi llawn ar gael yn yr ysgol.

## **POLISI CODI A DILEU TALIADAU**

Mae gan yr ysgol bolisi ar godi tâl a dileu taliadau sydd yn cydymffurfio â pholisïau'r Adran Addysg Leol. Gellir cael copi drwy law y pennaeth.

Ble fydd angen, defnyddir Cronfa'r Bont i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb.

## **TREFN CWYNO**

Mae'r Awdurdod Addysg Leol (yn unol a gofynion y Cynulliad dogfen 3/2004) wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r Ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin a llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth neu staff eraill yr ysgol. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a phan fo'r amgylchiadau'n rhai eithriadol, bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol. Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn a'r Pennaeth. Mae gan yr ysgol bolisi ynglŷn â threfn gwyno mewnol.

## **YMWELD Â'R YSGOL**

Mae croeso i unrhyw rieni/gwarchodwyr ymweld â'r ysgol. Gweithredir polisi drws agored i rieni/gwarchodwyr sydd eisoes a phlentyn yn yr ysgol. Gofynnir yn garedig i ddarpar rieni/gwarchodwyr gysylltu â'r Swyddfa er mwyn trefnu amser sydd yn gyfleus i bawb.

## **DOGFENNAU'R YSGOL**

Cedwir dogfennau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn y swyddfa. Mae croeso i rieni/gwarchodwyr weld unrhyw ddogfen berthnasol a gwneir pob ymdrech i gynnwys rhieni/gwarchodwyr yn y drafodaeth pan adolygir y dogfennau hyn.

Sicrhau bod pob rhiant/gwarchodwr newydd yn derbyn copi o'r prosectws/llawlyfr; mae ar gael wrth fynedfa'r ysgol ac ar wefan yr ysgol, a gellir gofyn am gopi yn swyddfa'r ysgol. Mae'r wybodaeth a geir ynddo ar gyfer y flwyddyn ysgol 2013/2014; er hynny, gall newidiadau ddigwydd yn ystod y flwyddyn. Fe adolygir y prosectws/llawlyfr yn flynyddol. Fe groesawn unrhyw adborth am y prosectws/llawlyfr gennyh.

## CYFEILLION YR YSGOL

Mae Cyfeillion y Bont (Rhif Cofrestru yr Elusen: 1045033) yn gymdeithas o rieni a phobl eraill a diddordeb yn y Bont sy'n awyddus i hybu lles ein hysgol.

Mae'r ysgol wedi derbyn cefnogaeth wych dros y blynyddoedd a 'rydym wedi elwa o'u holl weithgareddau trwy fedru prynu a chynnal a chadw offer gwahanol yn cynnwys; cyfrifiaduron, offerynnau cerddorol, offer ymarfer corff a chyllido profiadau preswyl.

Mae'r holl arian a godwyd i'r Ysgol drwy ystod o weithgareddau yn cael ei chyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni.

### **CYTUNDEB CARTREF – Y Bont** **Rhieni/Gwarchodwyr, Disgyblion a'r Ysgol Mewn Partneriaeth**

Mae'r Cytundeb Partneriaeth rhwng y Cartref a'r Bont yn adlewyrchu'r cysylltiadau cryf sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cael y fantais orau o'u hamser yn yr ysgol. Rydym yn credu'n gryf bod perthynas agored a gweithredol rhyngom ni, boed riant neu warcheidwad, yn hanfodol i ddatblygiad eich plentyn. Os oes gennych unrhyw bryderon yr hoffech eu trafod gyda'r athro dosbarth neu'r pennaeth yna peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Rydym yn hapus iawn i groesawu rhieni i'r ysgol i wyllo neu gynorthwyo gyda'r amrywiol brofiadau fel y gellir trosglwyddo unrhyw sgiliau newydd i'r cartref.

Ein bwriad yw darparu'r addysg orau wedi ei theilwrio i gyfarfod anghenion personol ein disgyblion o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Gosodir targedau heriol sy'n berthnasol i ddatblygiad yr unigolyn dan arweiniad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Defnyddir dulliau cyflwyno tawel, cyson a detholiadol er mwyn sicrhau bod anghenion unigol iawn ein disgyblion yn cael eu diwallu.

Rydym yn ymwybod iawn ei bod yn angenrheidiol i ddisgyblion ddatblygu dull addas o gyfathrebu a lle'n bosibl, meithrin agwedd positif tuag at ddarllen a chariad at lyfrau. Anogir chwi i ddefnyddio rhai dulliau cyfathrebu fel P.E.C.S. a/neu arwyddo, Proloq2go yn y cartref ac yna annog eich plentyn i fwynhau llyfrau mewn dull positif. Ceir taflen am gynnydd darllen a syniadau ar sut i gefnogi a helpu eich plentyn i ddarllen ar gael gan yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer pob disgybl sydd yn gaffaeliad iddynt i ymdoddi i'w cymdeithas leol.

Mae'r ysgol yn hybu a datblygu agweddau positif i'w hannog i barchu ei gilydd, eu hathrawon, y gymuned a'r amgylchedd y maent yn byw ynddi. Ceisir osgoi disgyblaeth lefn nac unrhyw fath o ddisgyblaeth sy'n herio urddas yr unigolyn.

Mae gofal, diogelwch a hapusrwydd y disgybl yn hanfodol i gefnogi dysgu ac mae gan yr ysgol Cynhellydd Plant a nysr gymwysedig i roi cefnogaeth a chynghor.

Mae partneriaeth weithredol dda rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol er mwyn cael y ddarpariaeth orau i'r plentyn. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni i drafod datblygiad eu plant ac mewn rhai achosion cysylltir yn ddyddiol dros y ffôn neu Ddyddiadur Ysgol/Cartref. Bwriad ymgynghori â rhieni yw sicrhau bod y trafodaethau yn rhyngweithiol, adeiladol a phositif rhwng staff a rhieni.

## PRESENOLDEB

Ni all unrhyw ddisgybl fynd oddi ar diriogaeth yr ysgol yn ystod oriau ysgol heb ganiatâd y Pennaeth neu'r UDRH. Yn achos disgyblion Blwyddyn 12 dylid cael caniatâd ysgrifenedig gan rieni neu warcheidwad.

1. Rhaid cael eglurhad am bob absenoldeb mewn nodyn neu neges bersonol uniongyrchol oddi wrth riant neu warcheidwad i'r athro dosbarth.
2. Dylai rhieni sy'n mynd ar wyliau yn ystod tymor yr ysgol gwblhau ffurflen wyliau ymlaen llaw (i'w chael o'r swyddfa) a'i dychwelyd i'r ysgol.
3. Rhaid dangos cerdyn apwyntiad neu gysylltu'n bersonol pan fo apwyntiad clinig, meddyg neu ddeintydd yn ystod oriau'r ysgol.
4. Ymarfer Corff: os yw disgybl eisiau esgusodi o wers addysg gorfforol am resymau dilys dylid cael nodyn gan y rhieni.
5. Dylai pob disbygl sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr fynd i'r swyddfa i gofrestru.

|                                                                              |              |
|------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| Canran sesiynau a gollwyd oherwydd absenoldeb <b>heb ei awdurdodi 13/14:</b> | <b>0%</b>    |
| Canran sesiynau a gollwyd oherwydd absenoldeb <b>gyda awdurdod 13/14:</b>    | <b>6.7 %</b> |
| Presenoldeb 2013/14                                                          | 93.3%        |

## LLEOLIADAU GADAWYR 2013/14:

|                                                  |          |
|--------------------------------------------------|----------|
| <b>Nifer Gadawyr:</b>                            | <b>6</b> |
| <b><i>Lleoliadau:</i></b>                        |          |
| <b>Coleg Glynllifon</b>                          | <b>1</b> |
| <b>Coleg Menai</b>                               | <b>4</b> |
| <b>Dan ofal Gwasanaethau Cymdeithasol/Iechyd</b> | <b>1</b> |
| <b>Canolfan Byron</b>                            | <b>0</b> |
| <b>Tyddyn Môn</b>                                | <b>0</b> |